

Cofnodion Cyngor Cymuned Llangywer
8/11/2021

Presennol: Geraint Roberts, (Cadeirydd), Clwyd Davies (Is-gadeirydd), Eleri Jones, Gwyn Roberts, W D Williams, Lis Puw (Clerc)

Lis Puw (Clerc)

Cynghorydd Alan Jones Evans (Cyngor Gwynedd) am ran o'r cyfarfod, trwy gyfrwng y ffôn.

1. Croesawyd pawb i'r cyfarfod a derbyniwyd ymddiheuriadau Tyly Roberts a oedd yn cynrychioli'r Cyngor mewn cyfarfod o Bartneriaeth Penllyn.
2. Nid oedd aelodau o'r cyhoedd yn bresennol.
3. Nid oedd datganiadau o fuddiant.
4. Cadarnhawyd cywirdeb Cofnodion 6/9/2021.
5. **Materion y Clerc:**
 - i. Gwelededd a thorri tyfiant yn ôl wrth bont Rhosygwaliau: er holi Cyngor Gwynedd a Chyfoeth Naturiol Cymru, yr adran goedwigaeth a'r adran amgylchedd, ni lwyddwyd i ddarganfod cyfrifoldeb pwy yw torri'r tyfiant. Awgrymwyd talu am ei dorri, ond dywedodd Emyr Jones y byddai ef yn gofalu am y mater.
 - ii. Parc Cenedlaethol Eryri /Cadw ac Eglwys Llangywer: gan na fu symud ymlaen, cytunwyd i gynnwys Cadw wrth ohebu eto gyda'r Parc.
 - iii. Diolchwyd i Warden y Llyn am gasglu'r Côns i stopio parcio anghyfrifol; maent ar gael i'w gosod allan flwyddyn nesaf.
 - iv. Ymateb Gan Bwyll i sylwadau'r Cyngor - ni dderbyniwyd ymateb. Ond mae'r broblem wedi lleihau erbyn hyn oherwydd bod y cyfnod clo wedi dod i ben.
6. **Cyngor Gwynedd:** Derbyniwyd adroddiad y Cynghorydd Alan Jones Evans a soniodd am ei ymweliad a Llyn Celyn i glywed am y newidiadau arfaethedig yno yn dilyn cyngor statudol ar ddiogelwch argaeau. Ni fydd lefel y llyn y codi, ond ar ôl i'r gwaith orffen fe fydd yn bosib gwagio yng nghynt pe byddai angen.
Roedd yn hyderus fod y drefn newydd o gasglu ddwywaith yr wythnos o'r safle ail-gylchu wedi gwella'r broblem.
Dywedodd ei fod yn parhau i weithio i sicrhau llinellau melyn dwbl yn yr ardal i atal parcio anghyfrifol ar hyd y ffordd, yn arbennig wrth faes parcio'r llyn yn Llangywer.
Diolchwyd i'r Cynghorydd am ei waith.

7. Materion ariannol:

- i. Derbyniwyd gwybodaeth fanwl am y sefyllfa ariannol ddiweddaraf (17/10/21). Ers cyfarfod Medi derbyniwyd yn ddiolchgar £372 ar gyfer batris y 2 di-ffib.
 - ii. Cytunwyd i dalu: Cyngor Gwynedd £198 (gwasanaeth cyfrifo); torri gwrychoedd y fynwent £78; SLCC £45.
 - iii. Trafodwyd trefniadau newydd HSBC a chytunwyd i symud i fancio ar lein.
 - iv. Nid oedd ceisiadau am gefnogaeth ariannol.
8. **Ceisiadau Cynllunio:** Cymeradwywyd cais **NP5/70/163 Craig yr Allt Ddu**, Cwm Hirnant, Rhosygwaliau. Gosod mast telathrebu lattice 40m o uchder gydag antenau cysylltiedig, dysglau, gorchudd rhag y tywydd a chabinetau offer o fewn compownd wedi'i ffensio. Mewnlenwi ardal rhwng trac coedwigaeth a chyfansoddyn gyda cherrig
9. **Partneriaeth Penllyn:** Nid oedd adroddiad y tro hwn.
10. **Un Llais Cymru:** Dosbarthwyd ymgynghoriad Llywodraeth Cymru ar ail gartrefi. Cyfarwyddwyd y Clerc i ateb ar ran y Cyngor.

11. Gohebiaeth:**Parc Cenedlaethol Eryri:**

- a. Derbyniwyd gwybodaeth am grantiau gan Gronfa Gymunedol Eryri.
- b. Diolchwyd am y cyfle i ymuno gyda Llanuwchllyn mewn trafodaeth ar dwristiaeth gynaliadwy gyda Pharc Cenedlaethol Eryri ar 3/12/21 10.30. Gan nad oedd amser y cyfarfod yn gyfleus, gofynnwyd i'r Cynghorydd Alan Jones Evans a'r Clerc siarad ar ran y Cyngor.

Cyngor Gwynedd:

- a. Ymgynghoriad Cynllun Strategol y Gymraeg: cytunwyd i adael hwn i ddoethineb addysgwyr.
- b. Derbyniwyd gwybodaeth am gyfarfod Clercod gyda Phrif Weithredwr Cyngor Gwynedd.
- c. Adolygiad drafft Polisi Datblygu Gwynedd a Môn: nodwyd derbyn
- d. Trafodwyd bwriad Cyngor Gwynedd i greu "aires".

Cyfoeth Naturiol Cymru: E-bostiwyd gwybodaeth am dorri coed yn ardal Maes Meillion, Rhosygwaliau.

E-bostiwyd gwybodaeth am waith ar flaendraeth Llyn Tegid.

Cymdeithas yr Iaith: Nodwyd derbyn llythyr yn sôn am yr angen i reoli twristiaeth. Yn sgil hyn, gofynnwyd i'r Clerc anfon at Gyngor Gwynedd i fynegi barn am y syniad o ddarparu "aires". Nid oedd yr aelodau yn dymuno gweld busnesau lleol yn colli arian oherwydd y ddarpariaeth hon. Teimlwyd mai ychwanegu at y broblem fyddai "aires" oherwydd fod Cyngor Gwynedd a'r Parc yn dweud nad oes ganddynt hawl i symud pobl sy'n parcio dros nos mewn culfannau. Ni fyddai darparu'r rhain yn cyfrannu at yr economi leol.

Dyddiad a lleoliad y cyfarfod nesaf: 17/1/2022 yn y Neuadd Bentref